**ADRODDIAD I'R CABINET**
19 Chwefror 2013

**Aelod Cabinet:** **Cyng Peredur Jenkins**

**Pwnc:** **Cynlluniau Effeithlonrwydd Strategol y Cyngor**

**Swyddog cyswllt:** **Emyr Edwards, Rheolwr Polisi Adnoddau**

---

## Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad

Ceisir cymeradwyaeth y Cabinet i weithredu'r cynlluniau arbedion sydd wedi'u datblygu hyd yma gan Fwrdd Prosiect Effeithlonrwydd Strategol y Cyngor.

---

## Barn yr aelod lleol

Ddim yn fater lleol

---

## Cyflwyniad

Mae Strategaeth Ariannol gyfredol y Cyngor yn gosod y targedau ariannol canlynol ar gyfer cynlluniau arbedion effeithlonrwydd corfforaethol neu drawsadrannol, ynghŷd â mandad i chwilio am ragor o syniadau posibl y tu hwnt i hynny:

| 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| £0.5m | £1m | £1.5m | £2m | £5m |

Mae yna Grŵp Prosiect yn gyfrifol am chwilio am gyfleoedd effeithlonrwydd ar draws y Cyngor a datblygu cynlluniau ar gyfer cyflawni'r arbedion yma. Maent yn ychwanegol at y cynlluniau 1% adrannol sydd eisoes wedi cael eu cymeradwyo wrth gwrs.

## Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Mae'r prosiect wedi bod yn edrych ar amryw o gynlluniau potensial ac mae nifer ohonynt yn ddigon aeddfed erbyn hyn i symud ymlaen i'w

gweithredu. Gwneir hyn ar y sail fod achos busnes cadarn yn ei le gyda sicrwydd rhesymol o allu gwireddu'r arbedion.

Mae'r Panel Strategaeth Ariannol (a'r Bwrdd Rhaglen Arbedion yn flaenorol) wedi bod yn derbyn adroddiadau rheolaidd am gynnydd y prosiect ac yn cefnogi trosglwyddo'r cynlluniau hyn i gael eu gwireddu.

**Ystyriaethau perthnasol**

Mae'r **Atodiad** yn rhoi manylion y cynlluniau arbedion yr argymhellir eu gweithredu.

Mae'r Prosiect yn adlewyrchu bwriad y Cyngor i ganfod cymaint â phosibl o'r bwlch ariannol drwy effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau gwasanaeth. Fe fydd angen i'r Cabinet fod yn fodlon y gellir gweithredu'r cynllluniau yma heb effeithio ar ganlyniadau i drigolion (fe all fod yna effaith ar sut mae trigolion yn derbyn y canlyniadau hynny).

Fe roddwyd ystyriaeth briodol i agweddau ac anghenion cydraddoldeb wrth lunio'r cynlluniau, ac mae'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith wedi edrych arnynt er mwyn ystyried a oes angen asesiad mwy manwl o unrhyw gynllun. Ar sail yr wybodaeth sydd gennym ni ystyrir fod unrhyw rai o'r cynlluniau dan sylw angen ail-feddwl yn sylweddol neu na ellir eu cyfiawnhau o safbwynt cydraddoldeb. Bydd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn parhau i gydweithio gyda'r adrannau perthnasol i sicrhau fod ystyriaethau cydraddoldeb yn parhau i dderbyn sylw wrth i gynlluniau gael eu gweithredu.

**Camau nesaf ac amserlen**

Wedi i gynlluniau gael eu cymeradwyo fe fyddant yn trosglwyddo i Arweinydd Prosiect perthnasol ar gyfer eu gweithredu ac fe fydd y Panel Cyflawni Arbedion yn monitro cynnydd yn erbyn amserlen y cynllun.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae parhau i ddatblygu a gweithredu cynlluniau effeithlonrwydd yn rhan cwbl allweddol o strategeth tymor hwy'r Cyngor ar gyfer wynebu'r her ariannol sydd yn ceisio lleihau'r angen i weithredu toriadau gwasanaeth. Wrth gwrs, un peth yw datblygu a chymeradwyo'r bwriad i wneud yr

arbedion hyn, rhaid sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer eu gweithredu ac rwy'n gwybod bod yr Aelod Cabinet a'r swyddogion wedi ymrwymo'n llwyr i wneud hynny.

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Cadarnhaf fy mod wedi cydweithredu gydag aelodau a swyddogion perthnasol i ddatblygu'r cynlluniau arbedion gerbron dros amrediad o gyfnodau.  Erbyn hyn maent oll yn gynlluniau aeddfed gydag amcangyfrifon gwerth eithaf teg.  Mae sawl cynllun eisoes wedi ei gyflawni ac wedi cyfrannu tuag at dargedau arbedion corfforaethol 2011/12 a 2012/13, tra mae eraill i'w gweithredu yn 2013/14.  Rwy'n cefnogi'r argymhelliad i'r Cabinet gymeradwyo'n ffurfiol gweithredu'r cynlluniau arbedion hyn, sydd eisoes wedi'u hyrwyddo'n anffurfiol gan y Bwrdd Rhaglen Arbedion (hyd at 2011/12) a'r Panel Strategaeth Ariannol (yn 2012/13).

**Atodiad**

- Cynlluniau arbedion effeithlonrwydd strategol

**Cynlluniau arbedion effeithlonrwydd strategol**

| Teitl | Swm £ | Sut na fydd yn effeithio canlyniadau i drigolion |
|---|---|---|
| Hysbysebu Swyddi | 95,310 | Cynyddu'r defnydd o'r we i hysbysebu swyddi gwag. Ar sail treialu, gwelwyd nad oes effaith ar nifer / safon ymgeiswyr (er fod safon ymgeiswyr yn anoddach ei brofi'n bendant, naill ffordd neu'r llall). |
| Arbedion ar gostau yswirio'r Cyngor | 326,000 | Llwyddiant i sicrhau cost is heb effeithio'r ddarpariaeth yswiriant. |
| Treuliau teithio | 231,000 | Canlyniad trafodaethau llwyddiannus â'r Undebau i ostwng y gyfradd lwfans teithio (yn unol â phenderfyniad Bwrdd y Cyngor 13 Rhagfyr 2011). Dim effaith ar wasanaethau. |
| Cytundebau nwyddau TG | 9,500 | Ail-dendro cytundebau er mwyn prynu yr un peth am bris llai. |
| Cyfuno rhwydweithiau llais a data | 128,000 | Newid i systemau teleffon a TG y Cyngor; dim effaith ar wasanaethau. |
| Adnoddau Strategaeth Cynhwysiad Uwchradd | 451,000 | Adnoddau corfforaethol nad oes bellach angen eu clustnodi i'r maes yma, gan y llwyddwyd i sicrhau yr un deilliannau drwy sicrhau ffynonellau cyllid eraill ac ail-flaenoriaethu adnoddau. |
| Peidio â rhoi chwyddiant ar gyllideb Cynnal a Chadw Strwythurau Ffyrdd yn 2012/13 | 265,790 | Gwaith ymchwil wedi amlygu fod lefel gyfredol y buddsoddiad yng Ngwynedd yn uchel o'i gymharu ag awdurdodau eraill. Gan fod y Cyngor wedi derbyn adnoddau gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi ar y ffyrdd nid oes rhaid ychwanegu chwyddiant hefyd (yn 2012/13 o leiaf) er mwyn cyflawni'r un deilliannau. Y maes yma yn destun Adolygiad Strategol, fydd yn |

| Teitl | Swm £ | Sut na fydd yn effeithio canlyniadau i drigolion |
|---|---|---|
| | | ystyried y blaenoriaethau a'r anghenion adnoddau yn fwy manwl. |
| Ailstrwythuro Adran Strategol a Gwella i gynnwys rhesymoli partneriaethau Gwynedd a Môn (yn dilyn cymeradwyaeth i'r strwythur partneriaeth gan Fwrdd y Cyngor 6 Mawrth 2012) | 73,708 | Bwriad y rhesymoli yw gwneud defnydd gwell a mwy effeithiol o adnoddau ac nid oes effaith ar wasanaethau rheng-flaen. Mae'r ailstrwythuro yn ogystal wedi ymdopi â'r gofyn i ddarparu gwasanaethau democrataidd yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth. |
| Gostyngiad yn ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru | 12,240 | Ffioedd is am yr un gwasanaeth. |
| Hwb rhanbarthol comisiynu, caffael a monitro Gwasanaethau Cymdeithasol (cadarnhau arbediad yn dilyn cymeradwyaeth Bwrdd y Cyngor i'r cynllun, 14 Chwefror 2012) | 100,000 | Trefniadau newydd mwy effeithlon ar gyfer comisiynu, yn hytrach na newid i'r gwasanaethau eu hunain.<br><br>Y ffigwr arbediad yn asesiad darbodus – efallai bydd y ffigwr rywfaint yn uwch yn y pen draw. |
| Cynhyrchu incwm – casglu gwastraff o dai gwyliau | 90,000 | Cadarnhad o'r swm sy'n deillio o benderfyniad blaenorol Bwrdd y Cyngor (3 Mai 2011) i godi ffi masnachol ar gyfer casglu gwastraff o dai gwyliau. |